

RHAGARWEINIAD

Mae dulliau traddodiadol o gynhyrchu llwyni ar gyfer adwerthu neu gyfanwerthu yn dibynnu ar wybodaeth arbenigol am dyfu eginblanhigion a all fod yn rhwystr i ddatblygiadau busnes newydd ym maes cynhyrchu stoc planhigfeydd. Mae nifer o gwmnïau tyfu arbenigol yn y DU a thramor sy'n cynhyrchu eginblanhigion coed a llwyni mewn potiau bach yn barod i'w tyfu'n ddigon mawr i'w gwerthu ac felly'n arbed i bobl eraill orfod gwneud y gwaith hwnnw. Fel rheol mae'r planhigion hyn yn cael eu gwerthu mewn potiau 9-12 cm yn barod i'w potio ymlaen: mae'r cyfuniad o blanhigion a photyn yn cael ei alw'n leiniwr. Mae cynhyrchu leinwyr wedi dod yn faes llwyddiannus iawn o fewn garddwriaeth ac mae planhigion yn cael eu cynhyrchu am brisiau cystadleuol. Mae'n bosib tyfu'r planhigion hyn ymlaen, fel arfer mewn potiau dau neu dri litr, i faint addas ar gyfer y farchnad, yn aml o fewn un tymor tyfu felly mae llai o gyfalaf y tyfwr yn cael ei glymu yn y fenter.

SYSTEMAU CYNHYRCHU

Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n cynhyrchu coed a llwyni o leinwyr yn defnyddio dulliau cnydio wedi eu hamddiffyn. Twneli polythen yw'r rhain gyda systemau dyfrhau (pibelli chwistrellu uwchben yn aml). Mae rhai cynhyrchwyr yn defnyddio ardaloedd sefyll y tu allan (gweler Llun 1) i feithrin planhigion cryfach a gwytnach. Fel rheol mae cyfryngau tyfu'n cael eu prynu gan gyflenwyr wedi eu cymysgu'n barod ond fel arall gall y tyfwr eu cymysgu. Mae'r cyfryngau tyfu fel arfer yn cynnwys gwrteithiau rhyddhau yn araf sy'n rhyddhau maetholion dros gyfnod o 6-48 mis yn dibynnu ar y fformiwleiddiad a nodwyd.



Ffig 1. Ardal tyfu ymlaen i leinwyr llwyni

CAEL GAFAEL AR LEINWYR

Mae'r cylchgrawn masnach Horticulture Week yn cyhoeddi Arweinlyfr blynyddol i brynwyr sy'n rhestru cyflenwyr planhigion a deunyddiau eraill. Dyma'r cylchgrawn masnach ar gyfer cynnyrch garddwriaethol amwynder ac mae'n ffynhonnell gwybodaeth wythnosol ddefnyddiol.

CAEL GAFAEL AR GYFRYNGAU TYFU

Fel arfer bydd cynhyrchwyr yn defnyddio cyflenwyr garddwriaethol cyfanwerthu arbenigol (fe welwch eu henwau yn y Tudalennau Melyn fel arfer). Gallwch brynu'r cyfryngau tyfu fel cymysgeddau parod cyffredinol, neu eu paratoi gan ddefnyddio, er enghraifft, y cyfansoddion yn Nhabl 1. Mae potiau planhigion ar gael fel arfer o'r un ffynonellau ar gyfraddau swp.

Tabl 1. Paratoi'r cyfryngau ar gyfer cynhyrchu coed a llwyni.

Cyfansoddyn	Rôl	Cyfanswm
Mawn neu ddeunydd organig	I ddarparu'r rhan fwyaf o'r cyfrwng gwreiddio	90% neu fwy
Tywod wedi ei olchi yn yr afon (dewisol)	I greu sefydlogrwydd a rheoleiddio gwlybaniaeth	5 – 10%
Gwrtaith gollwng yn araf	Darparu maetholion pwysig a mân	Fel y nodir gan y cynhyrchwr
Calch gardd	I newid yr asidedd i niwtral	Amrywiol
Calchfaen magnesiwm	Yn lle calch gardd ar gyfer planhigion Erica	Amrywiol

CYMYSGU CYFRYNGAU

Gellir cymysgu'r cyfryngau trwy ddefnyddio rhaw ar lawr concrit, gan ddefnyddio cymysgwr sment glân (gall olion tywod adeiladu fod yn rhy hallt i'r cyfryngau) neu ddefnyddio cymysgwr compost arbenigol maint mwy.

DEWIS O STOC

Bwriedir Tabl 2 fel arweiniad sy'n dangos arferion sy'n dderbyniol yn gyffredinol ac mae'n rhoi rhai awgrymiadau ar gyfer categorïau cyffredinol o stoc ar gyfer tyfu ymlaen.

ELW ARIANNOL

Er bod prisiau uned yn amrywio, os cymerir yn ganiataol y bydd cost leiniwr yn cael ei ddefnyddio i bennu prisiau, yna mae'r Tabl canlynol (Tabl 3) yn rhoi syniad cyffredinol o'r strwythurau prisiau. Yn dibynnu ar y system sy'n cael ei ddefnyddio bydd cost y deunyddiau gan gynnwys y planhigion yn gyfwerth â 25% o'r gwerth adwerthu heb gynnwys TAW.

Tabl 2. Dewis o leinwyr ar gyfer tyfu'n goed a llwyni y gellir eu gwerthu – tabl o arferion cyffredin.

Grŵp	Cyflwr wrth gael eu prynu	Maint y pot terfynol
Eginblanhigion coed	Yn cael eu tyfu mewn celloedd	3 neu 5 litr fel arfer (mwy i sbesimenau)
Grug	Potiau 9cm – 12cm	Potiau 1 litr
Rhododendron	Potiau 10cm – 15cm	Potiau 3 neu 5 litr
Planhigion grugaid eraill	Potiau 9cm – 12 cm	Potiau 1 i 2 litr
Llwyni cyffredinol	Potiau 9cm – 15cm	Potiau 2 neu 3 litr
Planhigion dringo	Potiau tal 10cm – 20cm	Potiau tal 3 i 5 litr
Rhosynnod	Potiau 10cm – 20cm	Potiau tal 3 i 5 litr

Tabl 3. Rhai awgrymiadau am strwythurau prisiau ar gyfer stoc a dyfwyd mewn leinwyr.

Cost y leiniwr	Adwerthu 2 litr	Cyfanwerthu 2 litr
Cost sylfaenol	Cost sylfaenol x 8	(Adwerthu– TAW) / 2 + TAW
£0.50	£4.00	£3.40 / 2 + TAW = £1.70 + TAW
£1.00	£8.00	£6.80 / 2 + TAW = £3.40 + TAW

nb: TAW ar 17.5%

Dylid ychwanegu tua 50% i'r pris allbwn am botiau 3 litr.

MARCHNATA

Mae coed a llwyni parod yn cael eu gwerthu o fewn marchnad gystadleuol. Serch hynny mae'n bosib elwa ar fanteision lleol. Er enghraifft, lle mae planhigion yn cael eu tyfu yn yr awyr agored gall fod yn bosib cynhyrchu planhigion gwynnach sy'n fwy addas i'r lleoliad ble maen nhw'n cael eu tyfu. Yr arfer safonol mewn planhigfeydd yw gadael digon o le rhwng planhigion yn ystod y cyfnod tyfu ymlaen i sicrhau tyfiant gwastad a chytbwys. Arfer arall yw torri'n ôl neu binsio pennau planhigion er mwyn annog tyfiant mwy trwchus. Defnyddir y dulliau hyn i gynhyrchu planhigion ar gyfer eu hadwerthu. Os ydynt yn cael eu gwerthu ar gyfer cynlluniau tirlunio a diwydiannol ar raddfa fawr yna fel rheol mae'r planhigion yn dderbyniol hyn yn oed os nad ydynt yn hollol gytbwys a gellir eu tyfu ymlaen â llai o le rhyngddynt yn y blanhigfa er mwyn cadw costau cynhyrchu i lawr. Mae manau gwerthu yn cynnwys gwerthu wrth giât y fferm, marchnadoedd ffermwyr, canolfannau garddio, contractwyr tirlunio a chyfanwerthwyr planhigion.

PLA AC AFIECHYDON

Mae llawer o blanhigion yn y diwydiant stoc planhigfeydd yn mynd trwy ddwylo mwy nag un tyfwr rhwng egino a gwerthu. Felly gall pla ac afiechydon ledu rhwng planhigfeydd. Mae angen pasbortau ar rai planhigion os cânt eu gwerthu i bobl yn y canol. Gall y tyfwr gael tystysgrif i roi pasbortau i blanhigion, a dylid holi Defra am fwiadau penodol. Fel rheol mae planhigfeydd sy'n tyfu planhigion coediog yn cael llai o broblemau gyda phla ac afiechydon oherwydd yr amrywiaeth planhigion sy'n cael eu cynhyrchu ac mewn llawer o blanhigfeydd nid oes rhaglenni rheoli cyson yn eu lle, neu rai digon tila. Mae Tabl 4 yn nodi rhai problemau sy'n gysylltiedig â thyfu leinwyr ymlaen.

Tabl 4. Rhai problemau gyda phla ac afiechydon sy'n gysylltiedig â stoc planhigfeydd.

Organeb	Symptomau
Llyngyren ledog	Problem farchnata'n bennaf ar gyfer stoc wedi ei gorffen nad yw'n cael ei hystyried yn dderbyniol
Llyngyren lysiau	Niwed i gryfder y gwreiddiau
Llyslau	Niwed i'r dail
Pryfed cnoi	Niwed i'r dail
Gwyfyn y gwinwydd	Niwed i'r gwreiddiau
Llwydni	Edrych yn wael a niwed i'r tyfiant
Firysau	Colli egni
Cwningod	Byddant yn dinistrio bron y cyfan o stoc planhigfeydd (ymysg eu hoff fwydydd mae'r Berberis dreiniog, ond nid ydynt yn bwyta Rhododendron!)

CYNHYRCHU PLANHIGION COEDIOG YNG NGHYMRU O LEINWYR

Wrth gynhyrchu planhigion o leinwyr mae'n bosib i unedau technoleg isel gynhyrchu planhigion i'w gwerthu sydd wedi addasu i'r amodau yng Nghymru a gall gynnig cyfleoedd arallgyfeirio ar gyfer diwydiannau ar y tir.